**Busnes Cymdeithasol Cymru**
**Social Business Wales**
Yn fentrus gadarnhaol
Positively enterprising

# Nodiadau Canllaw ar Lywodraethu

O ganlyniad i'r achos o Goronafeirws (COVID-19), mae'n ofynnol i bob ohonom bellach aros gartref ac eithrio ar gyfer rhesymau cyfyngedig iawn sydd wedi'u nodi yma. Ni chaiff cyfarfodydd bwrdd neu Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol eu hystyried yn hanfodol gan Lywodraeth y DU ac, ar hyn o bryd, ni fydd modd eu cynnal ar ffurf ffisegol.

Gan ystyried y datganiad diweddaraf gan Lywodraeth y DU, mae rhai o'n cleientiaid wedi gofyn i ni sut y gallant barhau i weithredu o fewn eu rheolau a beth y dylent ei wneud ynghylch Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol sydd ar ddod.

Mae'r briffiad hwn yn eich cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol sy'n ymwneud â llywodraethu yn ystod yr achos hwn o Goronafeirws. Byddwn yn diweddaru'r briffiad hwn yn rheolaidd wrth i fwy o adnoddau a chyngor fod ar gael.

Mae llawer o'r dolenni i'r ddogfen hon i wefannau allanol. Fe'u rhennir gyda phob ewyllys da ond ni allwn reoli eu cynnwys na'u cywirdeb.

**Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol**
O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, nid yw'n ofynnol i gwmnïau gynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol mwyach. Fodd bynnag, mae'n arfer cyffredinol yn y sector busnes cymdeithasol i gynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol mewn Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu cwmni.

Yn yr un modd, o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol i gymdeithasau gynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ond eto, gall fod yn ofynnol o fewn rheolau cymdeithas unigol.

Mae'r cyfnod hwn yn ddigynsail ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i gwmnïau a chymdeithasau y mae'n ofynnol iddynt gynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol wneud hyn mewn ffyrdd ychydig yn wahanol.

Y cam cyntaf yw edrych ar y **ddogfen llywodraethu** ar gyfer eich cwmni/cymdeithas. A yw'n cynnwys darpariaeth yn ymwneud â chynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol? A yw eich dogfen Lywodraethu yn cynnwys unrhyw fanylion ynghylch a oes angen i hwn fod yn gyfarfod ffisegol neu a ellir ei gynnal drwy ddulliau electronig? Pan fyddwn ni’n sôn am ddulliau electronig, rydym ni fel arfer yn cyfeirio at gynadledda fideo a chyfarfodydd yn defnyddio llwyfannau fel Zoom (rydym ni wedi rhoi sylw i ddefnyddio cyfathrebu digidol mewn nodyn cyngor arall).

Os nad ydych yn siŵr, gallwch bob amser cysylltu â ni i'ch helpu i nodi beth yw rhwymedigaethau eich cwmni/cymdeithas.

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

I'r cwmnïau/cymdeithasau hynny sydd â rhwymedigaeth yn eu dogfen llywodraethu i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ffisegol, nad ydynt yn gallu ei chyflawni o ganlyniad i ddatganiad diweddaraf Llywodraeth y DU ar COVID-19, byddant yn canfod bod angen iddynt weithredu y tu allan i'w dogfen lywodraethu. Yn dechnegol, mae unrhyw achos o dorri rheolau'r cwmni neu gymdeithas yn golygu y gallai aelod / aelodau fynd â'r cwmni neu'r gymdeithas honno i'r llys.

Er mwyn lliniaru unrhyw her gan yr aelodau, mae camau y gall cwmni/cymdeithas eu cymryd nawr. Mae Co-operatives UK wedi amlinellu'r rhain mewn ffordd ddefnyddiol iawn – gweler y ddolen isod. Yn gryno mae a wnelo hyn â cheisio cymorth/cydsyniad aelodau cyn gynted â phosibl mewn perthynas â chynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol drwy ddulliau electronig neu ohirio Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae a wnelo hefyd â chofnodi unrhyw benderfyniadau a wnaed ar lefel y bwrdd mewn perthynas â hyn, gan sicrhau bod cofnod ynghylch pam a wnaed y penderfyniadau. Mae'r cyfnod hwn yn ddigynsail a dylai aelodau ar y cyfan ymateb yn gadarnhaol i gamau o'r fath.

Mae Co-operatives UK, y corff aelodaeth ar gyfer cwmnïau cydweithredol, wedi cwmpasu'r mater hwn yn un o'i nodiadau canllaw yma: https://www.uk.coop/coronavirus-governance-advice-members.

Hoffai un o'n cynghorwyr busnes o Fusnes Cymdeithasol Cymru, sydd hefyd yn cadeirio ymddiriedolaeth elusennol, wneud y sylwadau canlynol ar y materion ynghylch cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol:

> "Mae'n glir mai'r opsiwn gorau fyddai cynnal eich Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o bell drwy ddefnyddio un o'r cyfleusterau fideogynadledda sydd ar gael. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod angen fod gan bob aelod fynediad at y cyfleuster ac i'r rhyngrwyd fod yn ddigon cryf i gario'r gyswllt i bob aelod. Os na fydd un aelod, neu rai o'r aelodau, yn gallu cymryd rhan yn y ffordd hon, rydych yn peryglu purdeb y broses ddemocrataidd y mae eich eich rheoli yn seiliedig arni. Byddwn yn argymell y byddai'r canlynol yn ddulliau gweithredu rhesymol:

- Cysylltwch â bob un o'ch aelodau, drwy e-bost yn ddelfrydol, i ofyn a ydynt yn fodlon cynnal y cyfarfod yn y ffordd hon – os yw eich rheolau yn caniatáu hyn yn benodol, gallwch hepgor y cam hwn.
- Os yw pob aelod yn cytuno, yna gellir gwneud trefniadau a chyflwyno'r hysbysiad yn y ffordd arferol. Bydd yr holl ohebiaeth yn electronig.
- Os nad yw eich rheolau yn caniatáu hyn, neu os na fydd rhai aelodau yn cytuno, yna bydd angen gwneud trefniadau eraill
- Hyd yn oed os bydd pawb yn cymeradwyo'r dull gweithredu hwn, mae'n bosibilrwydd gwirioneddol, o ystyried y pwysau ar y rhyngrwyd ar hyn o

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

bryd, na fyddai'n gweithio'n dda iawn yn ymarferol. Er enghraifft, efallai y bydd y ddelwedd yn llwytho a gall y sain fod yn ysbeidiol.

- Yn y naill neu'r llall o'r sefyllfaoedd uchod, yr unig gamau gweithredol realistig fyddai gohirio'r cyfarfod (nid canslo), gan hysbysu'r corff awdurdodi perthnasol mewn perthynas â hynny.
- Yna, cynnal cyfarfod ffisegol yn y ffordd arfer cyn gynted ag y bo'r cyfyngiadau'n caniatáu."

**Cynnal cyfarfodydd aelodau trwy ddefnyddio dulliau electronig**

Hoffem unwaith eto ailadrodd y cyngor ei bod yn well ymgynghori ag aelodau yn gynnar ynghylch pa mor gyffyrddus a galluog ydyn nhw o ran defnyddio dulliau electronig. Trwy ofyn am adborth gan aelodau, rydych i bob pwrpas yn ennill caniatâd ymhlyg, a all liniaru yn erbyn unrhyw risg o wrthwynebu gan aelod yn y dyfodol. Gallech gynnal pôl piniwn neu arolwg cyflym i weld faint o aelodau sy'n gallu cyfrannu trwy ddulliau electronig. Os nad yw'r aelodau'n gallu gwneud hynny, yna gallech ofyn iddyn nhw a fyddai'n well ganddyn nhw ohirio'r cyfarfod.

**Cworwm, pleidleisio a phleidleisio trwy ddirprwy**

Hefyd, mae'n syniad da ystyried pa ddarpariaethau eraill y mae rheolau eich cwmni / cymdeithas yn eu gwneud. Pan fydd Cymru'n dechrau llacio rheolau'r cyfyngiadau symud, mae'n debygol y bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn parhau, a fydd yn golygu y bydd angen i ni feddwl yn wahanol o hyd am sut rydym yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB). Nid ydym yno eto, ond dyma rai opsiynau posibl, wrth i'r rheolau gael eu llacio. A oes unrhyw sôn am sut y gellir cynnal y CCB o fewn eich rheolau? A oes darpariaeth ar gyfer pleidleisio trwy ddirprwy neu a yw'ch rheolau yn dawel ynglŷn â hyn? Mae'r hawl i bleidleisio trwy ddirprwy wedi'i nodi yn Neddf Cwmnïau 2006, felly hyd yn oed os yw rheolau'ch cwmni yn dawel ynglŷn â hyn, mae gan aelodau hawl i enwebu dirprwy. Gallai hyn ganiatáu llawer llai o aelodau yn yr ystafell (cofiwch, bydd angen i'r cadeirydd benderfynu hefyd a yw'r cyfarfod yn gworwm).

I gymdeithasau, nid oes hawl statudol i bleidleisio trwy ddirprwy yn y ddeddfwriaeth, felly os nad yw yn rhan o reolau cymdeithas, mae'n annhebygol y gellir defnyddio'r offeryn hwn. Fodd bynnag, os yw yn y rheolau, unwaith eto, gallai hwn fod yn offeryn defnyddiol.

**Etholiadau Bwrdd**

Mae'n werth cofio y gall (ac mae) etholiadau bwrdd ddigwydd hefyd trwy bleidlais electronig neu hyd yn oed drwy'r post, felly os oes angen i chi gynnal eich etholiad nawr, ond yr hoffech chi ohirio'r CCB, gallech chi fwrw ymlaen â'r etholiad (a chymryd bod eich rheolau yn caniatáu hynny, a bod yr holl waith papur yn gywir / ffurflenni enwebu wedi'u prosesu yn unol â'ch rheolau), gyda'r canlyniadau'n cael eu datgan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan fyddwch chi'n gallu ei gynnal. Petai rheolau'r cyfyngiadau symud yn cael eu llacio dros yr wythnosau a misoedd nesaf, ond bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn aros yn eu lle, gallai'r CCB hwn fod yn llawer llai, gan y bydd y mwyafrif o aelodau wedi pleidleisio yn yr etholiad ymlaen llaw.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Datganiadau Blynyddol**
Ein harweiniad fyddai ceisio paratoi cyfrifon fel arfer a chadw at derfynau amser dychwelyd. Fodd bynnag, gall fod rhai sefyllfaoedd lle na fydd hyn yn bosibl oherwydd ymyrraeth neu gyfyngiadau busnes COVID-19.

**Tŷ'r Cwmnïau**
Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau eich bod yn cadw eich ffurflenni Tŷ'r Cwmnïau yn gyfredol, ond os yw eich cwmni yn ei chael hi'n anodd o ganlyniad i COVID-19, yna mae Tŷ'r Cwmnïau wedi darparu manylion o ran sut y gallwch wneud cais am estyniad i ddyddiad cau ffeilio eich cyfrifon – Gweler y ddolen isod.  Mae'n bwysig eich bod yn gwneud cais am hyn os ydych yn credu y byddwch yn colli'r dyddiad cau, fel arall caiff dirwy awtomatig ei bennu.

Canllawiau penodol gan Dŷ'r Cwmnïau ar ffeilio ffurflenni a ffurflenni hwyr o ganlyniad i Goronafeirws: https://www.gov.uk/government/news/coronavirus-if-your-company-cannot-file-accounts-with-companies-house-on-time

Mae Tŷ'r Cwmnïau hefyd wedi cyhoeddi cyngor cyffredinol i gwmnïau, gan nodi sut y gallwch barhau i ffeilio a sut y bydd ei dîm yn gweithio yn ystod yr achos o COVID-19. https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-guidance-for-companies-house-customers-employees-and-suppliers

Diweddariad (9 Ebrill 2020) - Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cyhoeddi bod oedi wrth brosesu ffurflenni papur. Maent yn gofyn i bobl ddefnyddio gwasanaethau ar-lein lle bo hynny'n bosibl, ond lle nad yw hynny'n bosibl, maent yn gweithio ar ddatrysiad.

Gall busnesau sy'n cael eu heffeithio gan Covid-19 wneud cais am estyniad 3 mis https://beta.companieshouse.gov.uk/extensions?_ga=2.234769625.690888286.1585564098-1247673890.1582625672

**Diweddariad (090420)** – Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cyhoeddi rhybudd i ddweud bod oedi cyn prosesu ffurflenni papur. Gofynnir i bobl ddefnyddio gwasanaethau ar-lein lle bo hynny'n bosibl ond, fel arall, mae'n ceisio datrys y broblem.

Gall busnesau y mae Covid-19 yn effeithio arnynt wneud cais nawr am estyniad 3 mis uniongyrchol https://beta.companieshouse.gov.uk/extensions?_ga=2.234769625.690888286.1585564098-1247673890.1582625672

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

**Awdurdod Ymddygiad Ariannol**
Mae gan Co-operatives UK ychydig o gyngor ar ffeilio ffurflenni gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Dylai hyn fod yn haws i'w wneud, gan y gellir ffeilio cyfrifon a ffurflenni cyn iddynt gael eu cyflwyno i aelodau ac yna gallant gael eu cadarnhau gan aelodau pan na fydd y Gymdeithas yn gallu gwneud hynny: https://www.uk.coop/coronavirus-governance-advice-members

Mae'r FCA wedi rhyddhau datganiad ynghylch cyflwyno ffurflenni yn hwyr:

"...rydym yn cydnabod y bydd rhai cymdeithasau'n parhau i gael anawsterau wrth gyflwyno unrhyw ffurflenni gofynnol i ni mewn pryd. Er ein bod yn gofyn i gymdeithasau gymryd camau i gyflwyno eu ffurflenni i ni cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, rydym wedi penderfynu na fyddwn yn cymryd unrhyw gamau lle bydd ffurflenni sy'n ddyledus hyd at 30 Mehefin 2020 yn cael eu gohirio hyd at dri mis. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa hon eto ym mis Mehefin 2020."

Gallwch weld y datganiad a'r manylion llawn yn adran lywodraethu gwefan Co-operatives UK: https://www.uk.coop/coronavirus/governance-members

Ceir manylion am ffeilio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yma: https://www.fca.org.uk/firms/annual-returns-accounts-mutual-societies

Os ydych yn cael unrhyw broblemau a bod angen canllawiau pellach arnoch ar lywodraethu, gallwch gysylltu â ni yn Busnes Cymdeithasol Cymru.

Os ydych yn aelod o Co-operatives UK, gallwch hefyd gysylltu â'i Dîm Cyngor: advice@uk.coop.

**Y Comisiwn Elusennau**
Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau i elusennau mewn perthynas â llywodraeth a materion sy'n ymwneud â COVID-19. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ohirio Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a ph'un a ddylid defnyddio dulliau electronig (fideogynadledda/telegynadledda) ai peidio. Eto, y brif neges yw cofnodi unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chanslo, gohirio neu ddefnyddio dulliau amgen i gynnal y cyfarfod ac i sicrhau y gallwch ddangos llywodraethu da.

Gweler y canllawiau isod: https://www.gov.uk/government/news/coronavirus-covid-19-guidance-for-the-charity-sector

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Os yw'n annhebygol y bydd eich elusen yn bodloni ei ddyddiad ffeilio o ganlyniad i COVID-19, ffoniwch y Comisiwn Elusennau i roi gwybod iddo:

Canolfan Gyswllt y Comisiwn Elusennau: 0300 066 9197 (Dydd Llun – Dydd Gwener 9am-5pm)

**Cyfarfodydd Bwrdd / Pwyllgor**

Fel rheol, gellir cynnal cyfarfodydd bwrdd neu bwyllgor trwy ddulliau electronig. Mae hyn yn y ddeddfwriaeth ar gyfer cwmnïau a chymdeithasau - oni bai bod rhywbeth penodol wedi'i ysgrifennu yn rheolau eich cwmni neu gymdeithas sy'n nodi fel arall. Mae bywyd yn wahanol iawn i'r arfer i ni i gyd ar hyn o bryd, gan gynnwys y ffordd rydym ni'n gweithio ac yn cwrdd (yn rhithwir), ond mae'n bwysig cadw cofnodion ffurfiol ar gyfer y cyfarfodydd hyn - gan sicrhau bod yr holl benderfyniadau'n cael eu cofnodi.

Mae'r sefyllfa yn newid yn gyflym ac rydym yn gweithio fel tîm i ddatblygu adnoddau a chyngor penodol a fydd ar gael dros y diwrnodau a'r wythnosau nesaf, felly cadwch lygad ar agor am y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost ac ewch i'n gwefan https://cymru.coop/covid-19 neu https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy/covid-19-cymorth-ich-busnes-cymdeithasol yn rheolaidd hefyd.

Os hoffech siarad ag un o'n Cynghorwyr Busnes, ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu e-bostiwch sbwenquiries@wales.coop **a gallwn drefnu i rywun eich ffonio'n ôl.**

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund